

## Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a Naomi Stocks  
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Mai 2023 0300 200 6565  
Amser: 09.30 [SeneddPlant@senedd.cymru](mailto:SeneddPlant@senedd.cymru)

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (09.30)

### 2 Papurau i'w nodi (09.30 – 09.35)

#### 2.1 Cymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch

(Tudalennau 1 – 2)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn dilyn y cyfarfod ar 23

Tachwedd – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 1

#### 2.2 Gweithredu diwygiadau addysg

(Tudalennau 3 – 5)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y sector

Addysg Uwch – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 2

#### 2.3 Gweithredu diwygiadau addysg

(Tudalennau 6 – 7)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd

Prifysgolion Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 3

#### 2.4 Gweithredu diwygiadau addysg

(Tudalennau 8 – 9)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd

Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 4



## **2.5 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 10 – 11)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd Colegau Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 5

## **2.6 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 12 – 13)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 6

## **2.7 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 14 – 19)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 7

## **2.8 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 20 – 25)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan UCAS – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 8 (Saesneg yn unig)

## **2.9 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022–23**

(Tudalennau 26 – 28)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 9

## **2.10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25**

(Tudalennau 29 – 33)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 10

**2.11 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**  
(Tudalen 34)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Barnardo's Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 2 Mawrth – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 11 (Saesneg yn unig)

**2.12 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**  
(Tudalennau 35 – 37)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 12

**2.13 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**  
(Tudalennau 38 – 40)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 13

**2.14 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**  
(Tudalen 41)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 14

**2.15 Anghydraddoldebau iechyd meddwl**  
(Tudalennau 42 – 44)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 15

**2.16 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr**  
(Tudalennau 45 – 46)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 16

### **2.17 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 47 – 48)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at NSPCC Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 17

### **2.18 Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalennau 49 – 50)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 18 (Saesneg yn unig)

### **2.19 Blaenraglen Waith**

(Tudalen 51)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Kyle Jamie Eldridge – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 19 (Saesneg yn unig)

### **2.20 Materion sy'n ymwneud â deddfwriaeth – Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

(Tudalennau 52 – 53)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Theuluoedd yn Gyntaf mewn Addysg Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 20

### **2.21 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 54 – 58)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 21 (Saesneg yn unig)

### **2.22 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalen 59)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Colegau Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 22 (Saesneg yn unig)

## **2.23 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 60 – 83)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yn dilyn y cyfarfod ar 2 Mawrth – CYPE(6)–13–23 – Papur i'w nodi 23 (Saesneg yn unig)

## **3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o eitem gyntaf y cyfarfod ar 10 Mai (09.35)**

## **4 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical – trafod yr adroddiad drafft**

(09.35 – 11.00)

(Tudalennau 84 – 209)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Drafft – CYPE(6)–13–23 – Papur preifat

Nodyn Cyngor Cyfreithiol – Rhianta corfforaethol – CYPE(6)–13–23 – Papur preifat

Nodyn Cyngor Cyfreithiol – Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – CYPE(6)–13–23 – Papur preifat

## **Egwyl**

(11.00 – 11.10)

## **5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24 – trafod ymateb Llywodraeth Cymru**

(11.10 – 11.40)

(Tudalennau 210 – 240)

Dogfennau atodol:

Ymateb Llywodraeth Cymru – CYPE(6)–13–23 – Papur preifat

**6 Mynediad at addysg i blant a phobl ifanc anabl – trafod strategaeth ymgysylltu**

(11.40 – 11.50)

(Tudalennau 241 – 254)

Dogfennau atodol:

Ymgysylltu â Senedd Ieuenctid Cymru – CYPE(6)-13-23 – Papur preifat

Grŵp Cynghori Dinasyddion Ar-lein – CYPE(6)-13-23 – Papur preifat

**7 Gwrandawriad cyn penodi ar gyfer Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – trafod y dull gweithredu**

(11.50 – 12.05)

(Tudalennau 255 – 258)

Dogfennau atodol:

Trafod y dull gweithredu- CYPE(6)-13-23 – Papur preifat

## CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 1

**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

21 Mawrth 2023

Annwyl aelodau'r pwyllgor

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) ar 23 Tachwedd cytunais, fel Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ddarparu data ar gyfer Cymru gyfan am nifer yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr.

Rwy'n cydnabod bod yr ymateb hwn yn cael ei anfon atoch yn hwyrach na'r dyddiad a bennwyd, ac rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn darparu'r wybodaeth hon.

Mae'r data diweddaraf sydd gennym yn dangos cynnydd mewn achosion o iechyd meddwl gwael ymhlith myfyrwyr. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y myfyrwyr cofrestredig mewn prifysgolion yng Nghymru, dros y pum mlynedd ddiwethaf, sydd â chyflyrau iechyd meddwl:

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
<b>Nifer yr achosion</b>	3,180	3,715	4,670	5,425	6,245
<b>Cyfran y myfyrwyr cofrestredig yng Nghymru</b>	2%	3%	4%	4%	4%

Gofynnir i'r pwyllgor nodi'r sylwadau ategol canlynol ar gyfer y data a ddarperir:

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf. Mae'r holl niferoedd yn seiliedig ar fyfyrwyr cofrestredig sydd:

- yn cael eu cyfrif yn rhan o boblogaeth gofrestru safonol Addysg Uwch;
- yn fyfyrwyr mewn lleoliadau addysg uwch yng Nghymru (sefydliadau addysg uwch Cymru; myfyrwyr addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach; myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo ar sail nifer yr holl fyfyrwyr cofrestredig yng Nghymru y cofnodwyd statws eu hanabledd.

Dylai aelodau'r pwyllgor hefyd nodi bod y data'n cynnwys myfyrwyr sydd â dau gyflwr neu fwy. Gan nad yw'n hysbys ai cyflwr iechyd meddwl yw un o'r cyflyrau hynny, nid ydynt wedi cael eu cynnwys fel myfyrwyr sydd â chyflwr iechyd meddwl. O ganlyniad i hynny mae nifer y myfyrwyr cofrestredig sydd â chyflwr iechyd meddwl yn cynrychioli'r nifer isaf posibl – gallai'r nifer a'r gyfran wirioneddol fod yn uwch.

Rwy'n croesawu unrhyw gwestiynau a allai fod gennych mewn perthynas â'r data a ddarperir yma, ac rwy'n ymddiheuro'n ddiffuant unwaith eto am yr oedi cyn ymateb.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 2

### **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

### **Children, Young People and Education Committee**

Vivienne Stern,  
Prif Weithredwr, Universities UK

Vanessa Wilson,  
Prif Weithredwr, Universities Alliance

Rachel Hewitt,  
Prif Weithredwr, Million Plus

Dr Tim Bradshaw,  
Prif Weithredwr, Grŵp Russell

Clare Marchant,  
Prif Weithredwr, UCAS

Gordon McKenzie,  
Prif Weithredwr, Guild UE

Alastair Sim, Prif Weithredwr, Universities  
Scotland

Cc. Philip Blaker  
Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru

22 Mawrth 2023

### **Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Annwyl gyfeillion,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag ~~ymchwiliad hirdymor~~ i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

### **Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

### **Senedd Cymru**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Fel y gwyddoch, mae system addysg Cymru'n cael ei diwygio'n sylweddol. Sefydlwyd y [Cwricwlwm i Gymru](#) ("y Cwricwlwm") o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. [Cyflwynwyd](#) y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a bydd yn dod yn statudol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Bydd y Cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol wrth i'r carfanau hyn symud drwy'r ysgol uwchradd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Caiff y Cwricwlwm ei lywio gan '[bedwar diben](#)' a'i nod yw canolbwyntio ar addysgu a dysgu '[yr hyn sy'n bwysig](#)' o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Dywed Llywodraeth Cymru mai nod y Cwricwlwm yw "[p]aratoi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol – dinasyddion Cymru a dinasyddion y byd."<sup>1</sup>

Bydd y Cwricwlwm yn cael ei addysgu i ddysgwyr rhwng 3 ac 16. Mae angen [diwygio cymwysterau yn sylweddol](#), a chaiff hyn ei lywio gan y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, Cymwysterau Cymru. Er nad yw safonau A ac AS yn cael eu diwygio, ac er nad yw peth o sylwedd manwl cymwysterau'r dyfodol yn 16 oed yn gwbl hysbys eto, rydym am fesur barn y sector addysg uwch ynghylch a fydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach, a sut y bydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i Gymry ifanc a Chymru.

Fel rhan o'n gwaith i'r diwygiadau addysg pwysig a phellgyrhaeddol hyn, byddwn yn croesawu eich barn yn fawr<sup>2</sup> ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth rydych chi'n ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a'r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau'r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn [croesawu cyflwyniadau](#) ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, '[Mae Addysg yn Newid](#)'

<sup>2</sup> Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddyfodol cymwysterau ac nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith hwnnw mewn unrhyw ffordd. Byddem yn awyddus iawn i glywed eich barn fel y gallant lywio ein gwaith ein hunain yn y maes hwn.



weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod ([SeneddPlant@Senedd.Cymru](mailto:SeneddPlant@Senedd.Cymru)). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 2.3

CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 3

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

Elizabeth Treasure,  
Cadeirydd, Prifysgolion Cymru

Cc: Philip Blaker  
Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

22 Mawrth 2023

### Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Annwyl Elizabeth,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag [ymchwiliad hirdymor](#) i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Fel y gwyddoch, mae system addysg Cymru'n cael ei diwygio'n sylweddol. Sefydlwyd y [Cwricwlwm i Gymru](#) ("y Cwricwlwm") o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. [Cyflwynwyd](#) y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a bydd yn dod yn statudol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Bydd y Cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol wrth i'r carfanau hyn symud drwy'r ysgol uwchradd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Caiff y Cwricwlwm ei lywio gan '[bedwar diben](#)' a'i nod yw canolbwyntio ar addysgu a dysgu '[yr hyn sy'n bwysig](#)' o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Dywed Llywodraeth Cymru mai nod y Cwricwlwm yw "[p]aratoi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol – dinasyddion Cymru a dinasyddion y byd."<sup>1</sup>

Bydd y Cwricwlwm yn cael ei addysgu i ddysgwyr rhwng 3 ac 16. Mae angen [diwygio cymwysterau yn sylweddol](#), a chaiff hyn ei lywio gan y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, Cymwysterau Cymru. Er nad yw safonau A ac AS yn cael eu diwygio, ac er nad yw peth o sylwedd manwl cymwysterau'r

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, '[Mae Addysg yn Newid](#)'

dyfodol yn 16 oed yn gwbl hysbys eto, rydym am fesur barn y sector addysg uwch ynghylch a fydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach, a sut y bydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i Gymry ifanc a Chymru.

Fel rhan o'n gwaith i'r diwygiadau addysg pwysig a phellgyrhaeddol hyn, byddwn yn croesawu eich barn yn fawr<sup>2</sup>, fel prif randdeiliad yma yng Nghymru ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth rydych chi'n ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a'r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector Addysg Uwch ledled y DU i holi eu barn ar y materion hyn.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau'r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn [croesawu cyflwyniadau](#) ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod ([SeneddPlant@Senedd.Cymru](mailto:SeneddPlant@Senedd.Cymru)). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

---

<sup>2</sup> Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddyfodol cymwysterau ac nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith hwnnw mewn unrhyw ffordd. Byddem yn awyddus iawn i glywed eich barn fel y gallant lywio ein gwaith ein hunain yn y maes hwn.

# Eitem 2.4

CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 4

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc  
ac Addysg**

**Children, Young People  
and Education Committee**

John Nash

Cadeirydd, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Cc: Philip Blaker

Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

22 Mawrth 2023

## **Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Annwyl John,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag ymchwiliad hirdymor i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Fel y gwyddoch, mae system addysg Cymru'n cael ei diwygio'n sylweddol. Sefydlwyd y Cwricwlwm i Gymru ("y Cwricwlwm") o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Cyflwynwyd y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a bydd yn dod yn statudol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Bydd y Cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol wrth i'r carfanau hyn symud drwy'r ysgol uwchradd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Caiff y Cwricwlwm ei lywio gan 'bedwar diben' a'i nod yw canolbwyntio ar addysgu a dysgu 'yr hyn sy'n bwysig' o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Dywed Llywodraeth Cymru mai nod y Cwricwlwm yw "[p]aratoi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol – dinasyddion Cymru a dinasyddion y byd."<sup>1</sup>

Bydd y Cwricwlwm yn cael ei addysgu i ddysgwyr rhwng 3 ac 16. Mae angen diwygio cymwysterau yn sylweddol, a chaiff hyn ei lywio gan y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, Cymwysterau Cymru. Er nad yw safonau A ac AS yn cael eu diwygio, ac er nad yw peth o sylwedd manwl cymwysterau'r dyfodol yn 16 oed yn gwbl hysbys eto, rydym am fesur barn y sector addysg uwch ynghylch a fydd

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, 'Mae Addysg yn Newid'



diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach, a sut y bydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i Gymry ifanc a Chymru.

Fel rhan o'n gwaith i'r diwygiadau addysg pwysig a phellgyrhaeddol hyn, byddwn yn croesawu eich barn yn fawr<sup>2</sup>, fel prif randdeiliad yma yng Nghymru ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth rydych chi'n ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a'r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector Addysg Uwch ledled y DU i holi eu barn ar y materion hyn.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau'r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn croesawu cyflwyniadau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clerod ([SeneddPlant@Senedd.Cymru](mailto:SeneddPlant@Senedd.Cymru)). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

---

<sup>2</sup> Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddyfodol cymwysterau ac nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith hwnnw mewn unrhyw ffordd. Byddem yn awyddus iawn i glywed eich barn fel y gallant lywio ein gwaith ein hunain yn y maes hwn.

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

Guy Lacey

Cadeirydd, Colegau Cymru

Cc: Philip Blaker

Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

22 Mawrth 2023

### Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Annwyl Guy,

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag ymchwiliad hirdymor i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Fel y gwyddoch hefyd, mae system addysg Cymru'n cael ei diwygio'n sylweddol. Sefydlwyd y Cwricwlwm i Gymru ("y Cwricwlwm") o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Cyflwynwyd y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a bydd yn dod yn statudol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Bydd y Cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol wrth i'r carfanau hyn symud drwy'r ysgol uwchradd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Caiff y Cwricwlwm ei lywio gan 'bedwar diben' a'i nod yw canolbwyntio ar addysgu a dysgu 'yr hyn sy'n bwysig' o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Dywed Llywodraeth Cymru mai nod y Cwricwlwm yw "[p]aratoi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol – dinasyddion Cymru a dinasyddion y byd."<sup>1</sup>

Bydd y Cwricwlwm yn cael ei addysgu i ddysgwyr rhwng 3 ac 16. Mae angen diwygio cymwysterau yn sylweddol, a chaiff hyn ei lywio gan y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, Cymwysterau Cymru. Er nad yw safonau A ac AS yn cael eu diwygio, ac er nad yw peth o sylwedd manwl cymwysterau'r

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, 'Mae Addysg yn Newid'



dyfodol yn 16 oed yn gwbl hysbys eto, rydym am fesur barn y sector addysg uwch ynghylch a fydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach, a sut y bydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i Gymry ifanc a Chymru.

Rydym yn ddiolchgar am yr ymateb a gyflwynwyd gennych ym mis Awst y llynedd i'n galwad barhaus am dystiolaeth. I'n cefnogi wrth ddechrau ar y rhan nesaf o'r gwaith yn y maes pwysig hwn, byddwn yn croesawu eich barn ddiweddaraf yn fawr<sup>2</sup> ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth rydych chi'n ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a'r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector Addysg Uwch ledled y DU i holi eu barn ar y materion hyn.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau'r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn croesawu cyflwyniadau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod ([SeneddPlant@Senedd.Cymru](mailto:SeneddPlant@Senedd.Cymru)). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

---

<sup>2</sup> Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddyfodol cymwysterau ac nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith hwnnw mewn unrhyw ffordd. Byddem yn awyddus iawn i glywed eich barn fel y gallant lywio ein gwaith ein hunain yn y maes hwn.



## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Children, Young People and Education Committee

Philip Blaker

Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

23 Mawrth 2023

### Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Annwyl Philip,

Fel y gwyddoch efallai, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag ymchwiliad hirdymor i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Rydym yn anfon copiau atoch o lythyrau rydym wedi'u hysgrifennu at gynrychiolwyr y sector AU ledled y DU a phrif gynrychiolwyr cyffredinol y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 yma yng Nghymru i ofyn eu barn ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth maent yn ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a'r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith rydych chi'n ei wneud i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ôl-16 ar ddyfodol cymwysterau. Rydym yn awyddus i glywed barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 er mwyn llywio ein gwaith ein hunain.

Rydym hefyd yn awyddus i glywed safbwynt fwy diweddar gennych, fel y rheoleiddiwr annibynnol, ynghylch a fydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach. Byddai'n ddiddorol iawn clywed hefyd am y gwaith ymgysylltu rydych yn ei wneud gyda'r sector ôl-16, yn enwedig y sector addysg uwch y tu allan i Gymru.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau'r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn croesawu cyflwyniadau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Senedd Cymru**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod ([SeneddPlant@Senedd.Cymru](mailto:SeneddPlant@Senedd.Cymru)). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



# Eitem 2.7

CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 7

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru

[SeneddPlant@senedd.cymru](mailto:SeneddPlant@senedd.cymru)

Annwyl Jayne



24 Ebrill 2023

## **Barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt ar lefel gradd yng Nghymru a gynigir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, rydym am i bawb yng Nghymru fod yn hyderus bod y cymwysterau a enillir gan ein dysgwyr yn deg, y gellir ymddiried ynddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ledled y DU ac yn rhyngwladol.

O ystyried ein rôl, rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'i heffaith ar ddilyniant i addysg uwch.

### **Cwricwlwm i Gymru a diwygio cymwysterau**

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn gatalydd i'n rhaglen waith bresennol i ddiwygio cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed fel eu bod yn berthnasol i'r cwricwlwm newydd ac yn ei gefnogi. Mae ein prif ffocws wedi bod ar gymwysterau ar gyfer y sector 14-16 gan fod y cwricwlwm newydd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed ac nid yw'n cwmpasu'r cyfnod 16-18.

### **Ymgynghoriadau cyhoeddus i lywio'r broses o ddiwygio cymwysterau**

Fel rhan o'n rhaglen diwygio cymwysterau, rydym wedi cwblhau tri ymgynghoriad cyhoeddus ar raddfa fawr i helpu i lywio dyfodol cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae gennym ymgynghoriad byw ar y 'cynnig llawn' o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed a fydd yn cyd-fynd â'r cymwysterau TGAU newydd. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ym Mehefin 2023.

Yn 2019 cyhoeddwyd ein hymgyngoriad cyntaf ar gymwysterau i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Roedd hwn yn nodi'r egwyddorion sydd wedi bod yn sail i'r diwygiadau. Yr egwyddorion hyn yw y bydd pob cymhwyster 14-16 yn:

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

- gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi
- ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- ffurfio cynnig cynhwysol a chydlynol o gymwysterau

Cadarnhaodd yr ymgynghoriad hwn hefyd y byddem yn cadw'r brand TGAU fel rhan o'r diwygiadau. Roedd cefnogaeth gref i gadw'r brand TGAU, gyda'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn pwysleisio ei fod yn frand sefydledig ac a ddeallir sy'n werthfawr yng Nghymru yn ogystal ag yn gludadwy y tu allan i Gymru.

Cadarnhaodd ein hail ymgynghoriad yn 2021 yr ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael yn y dyfodol i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Arweiniodd yr ymgynghoriad hwn at dri math cyffredinol o benderfyniadau:

1. Cadw cymwysterau TGAU mewn disgyblaethau arwahanol ar gyfer rhai meysydd pwnc ond adolygu cynnwys ac asesiadau'r pynciau hyn mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru.
2. Integreiddio rhai meysydd pwnc i gymwysterau cyfun mwy o faint er mwyn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru yn well. Mae hyn wedi digwydd mewn Mathemateg a Rhifedd, Y Gwyddorau, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg ac Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg. Yn y meysydd hyn ni fydd cymwysterau TGAU sy'n benodol i ddisgyblaethau ar wahân yn bodoli mwyach.
3. Creu cymwysterau TGAU newydd sbon mewn meysydd pwnc nad ydynt yn bodoli fel cymwysterau TGAU ar hyn o bryd ond a grybwyllir yn benodol yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys Astudiaethau Cymdeithasol, Dawns ac Iaith Arwyddion Prydain.

Yn dilyn hyn, rydym wedi cwblhau ymgynghoriad mawr yn ddiweddar ar y cynnwys lefel uchel a'r trefniadau asesu ar gyfer y gyfres newydd o gymwysterau TGAU.

Llywiwyd y cynigion yn yr ymgynghoriad gan gyfnod dwys o ddatblygu ar y cyd a oedd yn cynnwys athrawon a rhanddeiliaid allweddol eraill yn uniongyrchol gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau addysg bellach ac uwch.

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r penderfyniadau a fydd yn deillio o hynny yn cael eu cyhoeddi yn ystod tymor yr haf.

### **Newidiadau i gynnwys ac asesiadau cymwysterau TGAU**

Mae'r cwricwlwm newydd wedi golygu bod angen newid cynnwys ac asesiadau arfaethedig cymwysterau TGAU, a drafodwn isod.

### **Cynnwys Cymwysterau TGAU a Dilyniant i Safon Uwch**

Rydym yn cydnabod yr angen am gymwysterau 14-16 newydd er mwyn darparu sylfaen gref ar gyfer symud ymlaen i Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill. Mae cefnogi dilyniant,

felly, wedi bod yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu'r gofynion cynnwys lefel uchel ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.

O ran Safon Uwch, nid ydym yn rhagweld y bydd angen diwygio helaeth. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal adolygiad llai manwl o gymwysterau Safon Uwch i sicrhau bod y dilyniant o TGAU i astudiaethau ôl-16 a thu hwnt yn ddilys.

Rydym yn y broses o gwmpasu'r adolygiad hwn ar hyn o bryd, er nad ydym yn rhagweld unrhyw newidiadau sylweddol i gymwysterau Safon Uwch. Yn lle hynny, bydd yr adolygiad yn gyfle i wirio am unrhyw fireinio a allai fod yn angen ei wneud. Rydym yn ymwybodol iawn mai Safon Uwch yw un o'r prif lwybrau i Addysg Uwch ac felly rydym am sicrhau cymaroldeb â rhannau eraill o'r DU ac nad yw dysgwyr Cymru o dan anfantais mewn unrhyw ffordd o gymharu â dysgwyr mewn rhannau eraill o'r DU.

### **Cynnwys yn gysylltiedig ag agweddau trawsgwricwlaidd Cwricwlwm i Gymru**

Yn ogystal â diweddarau ac adnewyddu cynnwys sy'n benodol i ddisgyblaethau, bydd y gyfres newydd o gymwysterau 14-16 (gan gynnwys TGAU) yn cynnwys, lle bo'n briodol, cyfleoedd naturiol a dilys i gysylltu â'r themâu trawsbynciol sydd yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys themâu amrywiaeth, hawliau dynol, cynaliadwyedd a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol.

### **Asesu**

Bydd newidiadau i asesiadau TGAU mewn llawer o bynciau yn cynnwys llai o bwyslais ar arholiadau ysgrifenedig a chynnwys cymysgedd ehangach o ddulliau asesu gan gynnwys gwaith prosiect ac asesiadau ymarferol.

Bydd mwy o bynciau TGAU yn rhai unedol, gan roi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr sefyll rhai o'u harholiadau cyn diwedd y cwrs. Rydym hefyd yn gweithio gyda CBAC i edrych ar gyfleoedd i gynnal asesiadau di-arholiad yn gynharach er mwyn helpu i leihau baich asesu yn nau dymor olaf Blwyddyn 11.

Yn ogystal, bydd cynnydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol o fewn yr arholiadau. Mae gan hyn y potensial i gynyddu dilysrwydd yr asesiadau yn ogystal â'u gwneud yn fwy deniadol i ddysgwyr ac yn fwy gwydn i ddigwyddiadau annisgwyl fel pandemigau.

### **Integreiddio yn y pynciau craidd**

Yn unol â strwythur a threfniadaeth y Cwricwlwm newydd i Gymru, rydym yn creu cymwysterau TGAU integredig newydd ar gyfer mathemateg a rhifedd, y gwyddorau, iaith a llenyddiaeth Gymraeg ac iaith a llenyddiaeth Saesneg.

Bydd y cymwysterau TGAU newydd hyn yn disodli'r TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd ar wahân presennol. Ni fydd cymwysterau TGAU ar wahân mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg ar gael mwyach; yn lle hynny, bydd gan ddysgwyr yr opsiwn o gymryd naill ai TGAU dyfarniad dwbl integredig neu ddyfarniad unigol yn Y Gwyddorau.

Bydd cymwysterau TGAU integredig newydd hefyd yn disodli cymwysterau TGAU iaith a Llenyddiaeth ar wahân mewn Cymraeg a Saesneg.

### **Effaith integreiddio ar ddilyniant**

Er mwyn deall effaith diwygio cymwysterau a'r cwricwlwm ar ddilyniant i addysg uwch, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â'r sector prifysgolion ledled Cymru a'r DU. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda sefydliadau unigol yn ogystal â chyrrff cynrychioliadol fel Grŵp Russell ac UCAS. Mae ein gwaith ymgysylltu wedi cynnwys trafodaethau gyda thimau derbyn prifysgolion yn ogystal â chyfadranau penodol o fewn prifysgolion gan gynnwys y rhai sydd â gofynion mynediad cystadleuol iawn fel ysgolion meddygol.

Mae'n bwysig nodi o ran derbyniadau i brifysgolion bod cymwysterau UG yng Nghymru yn dal i fod yn gysylltiedig â Safon Uwch. Fel arfer mae dysgwyr ym Mlwyddyn 12 yn cymryd cymwysterau UG cyn iddynt wneud cais am le mewn prifysgol. Mae hyn yn golygu, yn wahanol i ddysgwyr yn Lloegr, nad yw dysgwyr Cymru yn dibynnu ar raddau TGAU yn unig i ddarparu tystiolaeth o gyrhaeddiad blaenorol ar gyfer mynediad i brifysgol. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei chroesawu gan brifysgolion gan ei bod yn rhoi gwybodaeth ychwanegol iddyn nhw i gefnogi ceisiadau.

Rydym wedi cael ymateb cadarnhaol cyson i'n hymgysylltiad â'r sector prifysgolion. Mae'r pwyslais ar ehangder dysgu a phrofiadau, ac ar ddatblygu sgiliau fel datrys problemau a meddwl yn feirniadol wedi'i groesawu'n gyffredinol.

Mewn ymateb i'n hymgynghoriadau TGAU, clywsom bryderon gan rai ynghylch a allai'r cymwysterau integredig newydd yn y Gwyddorau, Saesneg, Cymraeg a Mathemateg o bosibl roi dysgwyr o Gymru dan anfantais wrth wneud cais i brifysgol. Clywsom hyn amlaf mewn perthynas â'r penderfyniad i ddisodli cymwysterau TGAU ar wahân mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Felly, fe wnaethom gynnwys ffocws penodol ar hyn yn ein trafodaethau ag addysg uwch. Mae prifysgolion wedi ein sicrhau na fydd y newidiadau hyn yn rhoi dysgwyr o Gymru dan anfantais. Ar ben hynny, mae'r penderfyniad hwn wedi'i groesawu gan gymdeithasau dysgedig fel y Sefydliad Ffiseg, y Gymdeithas Gemeg Frenhinol a'r Gymdeithas Fioleg Frenhinol sydd oll o blaid llwybr mwy cyffredin drwy wyddoniaeth ar lefel TGAU. Maent hefyd yn cydnabod y cyfleoedd y mae'r strwythur hwn yn eu cynnig ar gyfer creu cysylltiadau cryf rhwng y gwahanol ddisgyblaethau gwyddonol.

Mae prifysgolion, yn enwedig y rheini sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, yn awyddus i ddeall mwy am y newidiadau i'r cwricwlwm ac i gymwysterau yng Nghymru. Mae ganddynt ddiddordeb arbennig mewn deall sut mae safonau cymwysterau'r dyfodol yng Nghymru yn cymharu â'r rhai a astudir mewn awdurdodaethau eraill, yn enwedig yn Lloegr.

Byddwn yn parhau i gysylltu â phrifysgolion wrth i'r rhaglen diwygio cymwysterau ddatblygu. Er enghraifft, mae gennym reolwr ymgysylltu strategol penodedig sy'n gyfrifol am fynd ati i ymgysylltu â'r Sector Addysg Uwch. Byddwn hefyd yn sicrhau bod strategaeth gyfathrebu glir i helpu i egluro'r newidiadau sy'n digwydd i gymwysterau yng Nghymru.

## **Dibyniaethau allweddol**

Mae llwyddiant diwygiadau i'r cwricwlwm ac i gymwysterau, a thrwy hynny allu dysgwyr i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu taith addysgol, yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y rhaglen datblygu proffesiynol i gefnogi'r proffesiwn addysgu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith.
- eglurder ynghylch y rôl y bydd canlyniadau cymwysterau yn ei chwarae yn ecosystem data a gwybodaeth newydd Llywodraeth Cymru i gefnogi gwerthuso a gwella ysgolion.

Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gael rhagor o eglurder o ran y meysydd hyn, ac yn darparu cefnogaeth a mewnbwn perthnasol fel y bo'n briodol.

## **Y Camau Nesaf**

Byddwn yn cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau TGAU newydd yn nhymor yr haf. Bydd hyn yn nodi carreg filltir arwyddocaol yn y prosiect yn ogystal â rhoi mwy o amlygrwydd i randdeiliaid o ran sut fydd cymwysterau'r dyfodol yn edrych. Bydd hefyd yn sail i CBAC ddechrau datblygu'r manylebau drafft a'r deunyddiau asesu enghreifftiol.

Cyhoeddir manylebau cymwysterau ac asesiadau enghreifftiol y flwyddyn cyn y caiff y cymwysterau eu haddysgu am y tro cyntaf. Yn y rhan fwyaf o bynciau bydd y cymwysterau TGAU newydd yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, gyda'r dyfarniad cyntaf yn Haf 2027. Mae hyn yn golygu y bydd y manylebau a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer y pynciau hyn ar gael yn 2024. Bydd nifer fach o bynciau a fydd yn cael eu haddysgu gyntaf ym mis Medi 2026, a bydd manylebau ac asesiadau enghreifftiol ar gyfer y rhain ar gael yn 2025.

